

Memorandwm Esboniadol i Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020

Paratowyd y Memorandwm Esboniadol hwn gan y Gyfarwyddiaeth Gynllunio ac fe'i gosodir gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar y cyd â'r is-ddeddfwriaeth uchod ac yn unol â Rheol Sefydlog 27.1.

Datganiad y Gweinidog

Yn fy marn i, mae'r Memorandwm Esboniadol hwn yn rhoi darlun teg a rhesymol o effaith ddisgwyliedig Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020.

Rwy'n fodlon bod y manteision yn cyfiawnhau'r costau tebygol.

Julie James AC
Y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol
30 Mawrth 2020

RHAN 1

1. Disgrifiad

- 1.1 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) 1995 (y "GDCG"), fel y'i diwygiwyd, yn caniatáu ar gyfer gwneud mân ddatblygiadau, o fewn paramedrau penodol, heb fod angen cyflwyno cais cynllunio. Gelwir hyn yn "ddatblygiad a ganiateir".
- 1.2 Mae Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020 ("y Gorchymyn Diwygio") yn diwygio Atodlen 2 i'r GDCG drwy:
 - Mewnosod Rhan 12A newydd (datblygiad brys gan awdurdodau lleol) i ganiatáu i'r awdurdodau lleol gyflawni datblygiad penodol mewn argyfwng. I'r dibenion hyn, mae argyfwng yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol mewn lle yn y Deyrnas Unedig.

2. Materion o ddiddordeb arbennig i'r Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

- 2.1 Yn unol ag adran 11A (4) o Ddeddf Offerynnau Statudol 1946, fel y'i mewnosodwyd gan Atodlen 10 paragraff 3 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r Llywydd wedi'i hysbysu y bydd y Gorchymyn yn dod i rym lai na 21 diwrnod o'r dyddiad y'i gosodwyd.
- 2.2 Mae'r Gorchymyn yn ceisio osgoi'r oedi y byddai gwneud a phrosesu ceisiadau cynllunio yn anochel yn ei olygu. O ystyried yr amgylchiadau sy'n gysylltiedig â chlefyd COVID-19, sy'n disgyn yng nghategori "argyfwng" at ddibenion y Gorchymyn, ac yn enwedig ei natur sy'n symud yn gyflym, tybir bod peidio â chadw at y rheol 21 diwrnod yn angenrheidiol ac yn gyfiawn yn yr achos hwn.

3. Cefndir deddfwriaethol

- 3.1 Mae'r pwerau i wneud y Gorchymyn diwygio yn adrannau 59, 60(1), 61(1) a 333(7) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990. Mae'r adrannau hyn yn rhoi pŵer i'r Ysgrifennydd Gwladol i ganiatáu (neu i alluogi awdurdodau cynllunio lleol i roi) caniatâd cynllunio ar gyfer categorïau o ddatblygiad a bennir mewn gorchymyn datblygu. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan erthygl 2 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny i Weinidogion Cymru yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraffau 30 a 32 o Atodlen 11 iddi, a'r swyddogaethau hynny'n swyddogaethau Cynulliad perthnasol fel y'u diffinnir ym mharagraff 30(2).

3.2 Mae adran 333(5B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 yn darparu mai gweithdrefn penderfyniad negyddol yw'r weithdrefn ar gyfer offeryn statudol sy'n cynnwys gorchymyn datblygu a wneir gan Weinidogion Cymru.

4. Diben y ddeddfwriaeth a'r effaith y bwriedir iddi ei chael

Datblygu brys gan awdurdodau lleol

- 4.1 Yn ystod argyfwng, yn aml mae angen i Lywodraeth Leol ymateb i sefyllfaoedd sy'n newid yn gyflym er mwyn atal, cyfryngu neu leddfu argyfwng iechyd dynol. Derbynnir y dylid llacio'r gofynion rheoliadol arferol yn ystod y cyfryw amser er mwyn helpu'r pwysau sylweddol sydd ar awdurdodau lleol sydd â chyfrifoldebau eang wrth gyflawni'r rheini mewn argyfwng, pan fydd angen iddynt weithredu ar fyrder.
- 4.2 Er gwaethaf hyn, cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw sicrhau bod eu hymddygiad yn gyfreithlon. Gyda hyn mewn golwg, diben y darpariaethau yn y Gorchymyn diwygio, sy'n cyflwyno Rhan 12A newydd o Atodlen 2 i'r GDCG, yw rhoi hawliau datblygu a ganiateir i awdurdodau lleol i ymgymryd ag unrhyw ddatblygiad dros dro ar dir sy'n eiddo, a brydlesir, a feddiennir neu a gynhelir ganddynt at ddibenion atal argyfwng; lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng; neu gymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng. Gallai hyn gynnwys newid defnydd unrhyw adeilad i unrhyw ddefnydd a chodi adeiladau neu strwythurau at y dibenion hynny.
- 4.3 At ddiben Rhan 12A, mae argyfwng yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol mewn lle yn y Deyrnas Unedig. Diffinnir digwyddiadau neu sefyllfaoedd o'r fath ym mharagraff A.2(2) o'r rhan honno.
- 4.4 Mae'r datblygiad a ganiateir yn ddarostyngedig i amodau sydd hefyd wedi'u nodi yn y Rhan 12A newydd ym mharagraff A.1.
- 4.5 Yr amodau hynny yw:
- Os nad y datblygwr yw'r ACLL bod y datblygwr yn hysbysu'r ACLL o'r datblygiad;
 - Cyfyngiad ar gadw datblygiad a wneir o dan y rhan hon i gyfnod o ddeuddeg mis ar y mwyaf gan ddechrau ar y dyddiad y dechreuodd y datblygiad. Ar ôl y cyfnod hwn mae'n rhaid i'r datblygiad fod wedi'i symud a/neu ei ddefnydd mewn argyfwng wedi dod i ben a rhaid adfer unrhyw dir i'w gyflwr blaenorol fel yr oedd cyn i'r datblygiad ddigwydd (neu i'r cyfryw gyflwr arall y cytunwyd arni â'r awdurdod cynllunio lleol). Fel arall, gellid sicrhau caniatâd cynllunio at y diben penodol.

- 4.6 Mae'r Gorchymyn yn ceisio osgoi'r oedi anorfod y byddai gwneud a phrosesu ceisiadau cynllunio yn ei olygu, a thrwy hynny alluogi ymateb cyflymach i'r argyfwng.
- 4.7 Mae'r hawliau datblygu a ganiateir yn debyg i'r rhai a roddir i'r Goron yn Rhan 37 o'r GDCG sy'n caniatáu i dir y Goron gael ei ddefnyddio i atal neu liniaru argyfwng, sy'n cynnwys atal colli bywyd dynol a salwch neu anaf dynol.

5. Ymgynghoriad

- 5.1 Oherwydd natur argyfwng y Gorchymyn hwn ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyn i'r Gorchymyn ddod i rym.
- 5.2 Bydd barn rhanddeiliaid yn cael ei cheisio yn ôl-weithredol fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ar newidiadau ehangach i'r GDCG. Bydd unrhyw adborth yn cael ei ddefnyddio i lywio unrhyw newidiadau i'r Gorchymyn yna yn y dyfodol.

RHAN 2 – ASESIAD EFFAITH RHEOLEIDDIOL

Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) 2020

Hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer datblygiadau brys gan awdurdodau lleol

1. Opsiynau

1.1 Ystyrir yr opsiynau canlynol:

Opsiwn 1: gwneud dim – bydd angen caniatâd cynllunio o hyd ar gyfer y rhan fwyaf o gamau gweithredu gan awdurdodau lleol sy'n datblygu, o dan adran 57 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, i ymateb i argyfwng.

Opsiwn 2: gwneud y ddeddfwriaeth – hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer awdurdodau lleol i ymgymryd â datblygiad sy'n angenrheidiol er mwyn ymateb i argyfwng.

1.2 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffeirir gan y bydd yn galluogi awdurdod lleol i ymateb i sefyllfa frys mewn modd amserol.

2. Dadansoddiad cost a budd

2.1 Mae'r sectorau sydd fwyaf tebygol o gael eu heffeithio gan y cynigion yn cynnwys:

- Awdurdodau lleol-22 awdurdod unedol Cymru,
- Awdurdodau cynllunio lleol (ACLI) – Mae gan Gymru 25 o Awdurdodau Cynllunio Lleol sy'n penderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Mae 22 o'r rhain yn awdurdodau unedol, ac Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol, sy'n darparu eu swyddogaeth cynllunio tref eu hunain, yw'r 3 arall,
- Y rhai y mae argyfwng (fel y'i diffinnir yn y Gorchymyn) yn effeithio arnynt - busnes, sefydliadau a'r cyhoedd yn gyffredinol.

2.2 Cynhaliwyd y dadansoddiad cost a budd canlynol ar gyfer pob un o'r sectorau uchod:

Dadansoddiad cost ar gyfer Opsiwn 1: gwneud dim

Awdurdodau lleol

2.3 Efallai y bydd angen caniatâd cynllunio ar gyfer datblygiad sy'n ofynnol fel rhan o ymateb i argyfwng. Mae'r ffi gynllunio ar gyfer cais cynllunio yn amrywio ar sail y math o ddatblygiad. Bydd costau cysylltiedig ychwanegol ar gyfer paratoi'r wybodaeth ategol angenrheidiol, megis cynlluniau. Amcangyfrifodd

astudiaeth meincnodi a gynhaliwyd yn Lloegr¹ fod cyfanswm y gost o gyflwyno cais newid defnydd yn amrywio o £290 i £3,368 gyda chost gyfartalog o £1,245 a chost ganolrifol o £1,035.

- 2.4 Cafodd nifer o newidynnau effaith ar y costau hyn, gan gynnwys defnyddio asiant, defnyddio cynlluniau presennol a gyflwynwyd fel rhan o gynlluniau blaenorol, a'r arbedion yr aed iddynt drwy gyflwyno ceisiadau drwy'r Porth Cynllunio (y costau argraffu cyfyngedig hyn). Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y costau a nodir yn yr astudiaeth hon yn cynrychioli a) y costau sy'n debygol o gael eu hysgwyddo yng Nghymru a b) y costau sy'n debygol o godi wrth wneud cais am y raddfa hon o ddatblygiad. Gall awdurdod lleol ddefnyddio gwasanaethau 'mewnol' i leihau rhai costau paratoi.
- 2.5 Bydd y gofyniad am ganiatâd cynllunio yn gohirio ymateb awdurdodau lleol i argyfwng, a allai o bosibl arwain at gostau anuniongyrchol na ellir eu mesur wrth iddynt geisio cael mesurau amgen i fynd i'r afael â'r effeithiau sy'n deillio o argyfwng wrth geisio caniatâd cynllunio.
- 2.6 Mae'n debygol y bydd costau anuniongyrchol yn codi hefyd o ganlyniad i ddefnyddio'r sector preifat i ddarparu gwasanaethau ac i logi cyfleusterau mewn ymateb i argyfwng tra bod awdurdodau lleol yn gofyn am y caniatâd perthnasol i ddatblygu eu tir/adeiladau eu hunain. Oherwydd cwmipas y datblygiad a ganiateir gan y Gorchymyn hwn, ac oherwydd y bydd unrhyw ymateb i argyfwng yn amrywio, ni ellir meintioli'r gost anuniongyrchol hon.

Awdurdodau cynllunio lleol

- 2.7 Bydd ACLlau yn parhau i ddilysu, prosesu a phenderfynu ar geisiadau am ganiatâd cynllunio. Bydd angen rhoi cyhoeddusrwydd i bob cais a chynnal ymweliad safle. Penderfynir ar y cais yn unol â'r cynllun dirprwyo ACLL perthnasol a all olygu bod y Pwyllgor Cynllunio yn penderfynu ar y cais. Bwriedir i'r ffi gynllunio a delir wrthbwysu costau ACLlau.

Rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

- 2.8 Bydd y gofyniad am ganiatâd cynllunio yn oedi ymateb yr awdurdodau lleol i'r argyfwng perthnasol. Gallai hyn o bosibl arwain at gostau anuniongyrchol i'r rhai y mae'r argyfwng penodol yn effeithio arnynt, megis y cyhoedd a busnesau.
- 2.9 Ni ellir meintioli'r costau hyn gan y bydd difrifoldeb y costau yn dibynnu ar fath a maint yr argyfwng y mae'r awdurdod lleol yn ceisio ymateb iddo.

¹ Meincnodi'r costau i ymgeiswyr cyflwyno cais cynllunio.

<https://webarchive.nationalarchives.gov.uk/20090903233426/http://www.communities.gov.uk/documents/plannin/gandbuilding/pdf/benchmarkingcostsapplication.pdf>

Dadansoddiad budd ar gyfer Opsiwn 1- gwneud dim

Awdurdodau lleol

2.10 Nid oes unrhyw fanteision uniongyrchol nac anuniongyrchol i awdurdodau lleol. Bydd y rhwystrau biwrocraataidd presennol i gynnal gweithredu cyflym mewn ymateb i argyfwng yn parhau.

Awdurdodau cynllunio lleol

2.11 Mae ACLlau yn cadw'r ffioedd ceisiadau cynllunio sy'n gysylltiedig ag unrhyw geisiadau a wneir gan awdurdodau lleol sy'n angenrheidiol fel rhan o'i hymateb i argyfwng.

Rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

2.12 Nid oes unrhyw fuddion uniongyrchol nac anuniongyrchol i'r rhai y mae argyfwng yn effeithio arnynt.

Cyhoedd yn gyffredinol

2.13 Bydd y rhai sydd â diddordeb yn y datblygiad arfaethedig yn gallu cymryd rhan yn y broses o wneud cais cynllunio drwy gyflwyno sylwadau i'r ACLl drwy'r cyfnod cyhoeddusrwydd statudol. Bydd yr ACLl yn ystyried y sylwadau a wnaed yn ystod y broses hon fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau.

Dadansoddiad cost ar gyfer Opsiwn 2: gwneud y ddeddfwriaeth

Awdurdodau lleol

2.14 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol neu anuniongyrchol ychwanegol i awdurdodau lleol. Mae'r cynigion yn rhai sy'n cael eu dad-reoleiddio ac felly disgwylir iddynt arwain at arbedion cost.

Awdurdodau cynllunio lleol

2.15 Bydd gostyngiad i incwm ffioedd ceisiadau cynllunio, fodd bynnag, mae'r ACLL yn gwrthbwysu hyn drwy beidio â thalu'r costau sy'n gysylltiedig â phrosesu'r ceisiadau hynny. Mewn llawer o amgylchiadau, nid yw'r ffi gwneud cais yn cynnwys y gost o benderfynu ar gais cynllunio.

Rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

2.16 Nid oes unrhyw gostau uniongyrchol neu anuniongyrchol ychwanegol i'r cyhoedd.

Dadansoddiad budd ar gyfer Opsiwn 2

Awdurdodau lleol

- 2.17 Mae'r Gorchymyn yn rhoi caniatâd cynllunio i awdurdodau lleol gyflawni datblygiad at ddibenion:
- atal argyfwng
 - lleihau, rheoli neu liniaru effeithiau argyfwng; neu
 - cymryd camau eraill mewn cysylltiad ag argyfwng.
- 2.18 Mae argyfwng yn ddigwyddiad neu'n sefyllfa sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol. Mewn sefyllfaoedd o'r fath, mae'r Gorchymyn yn rhoi caniatâd cynllunio i unrhyw ddatblygiad, dros dro am 12 mis, gan awdurdodau lleol sy'n angenrheidiol ar gyfer y yn ystod unrhyw rai o'r sefyllfaoedd a grybwyllwyd uchod.
- 2.19 Mae'r Gorchymyn yn galluogi awdurdodau lleol i ymateb i natur symudol argyfyngau a chyflawni datblygiad angenrheidiol, fel y'i diffinnir yn adran 55 o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990, ac osgoi'r oedi cyn y bydd gwneud a phrosesu'r cyfryw Mae'n anorfod y byddai ceisiadau'n cynnwys.

Awdurdodau cynllunio lleol

- 2.20 Yn ystod argyfwng, gall adnoddau ACLlau gael eu cyfyngu oherwydd adleoli staff i feysydd blaenoriaeth neu absenoldeb. Bydd y Gorchymyn yn gwaredu'r hyn a fyddai'n geisiadau blaenoriaeth yn ystod argyfwng cenedlaethol o'r system gynllunio. Yn gyffredinol, mae lleihau nifer y ceisiadau cynllunio yn y system gynllunio yn caniatáu i ACLlau ganolbwyntio adnoddau staff gwerthfawr ar geisiadau mwy cymhleth ac agweddau system sydd angen y mwyaf o adnoddau.

Rhai yr effeithir arnynt gan argyfwng

- 2.21 Y camau gweithredu a gymerir gan yr awdurdod lleol o ganlyniad i'r Gorchymyn fydd ymateb yn uniongyrchol i argyfwng, neu ei atal, sy'n bygwth niwed difrifol i les dynol. Bydd y camau hyn yn cael eu cymryd fel rhan o ymateb brys yr awdurdodau lleol er mwyn diogelu'r cyhoedd.

Crynodeb o'r opsiwn a ffefrir

- 2.22 Opsiwn 2 yw'r opsiwn a ffefrir am ei fod yn osgoi gohirio ymateb awdurdod lleol i sefyllfa o argyfwng.

3. Ymgynghori

- 3.1 Oherwydd natur argyfwng y Gorchymyn hwn ni wnaeth Llywodraeth Cymru gynnal ymgynghoriad cyn i'r Gorchymyn ddod i rym.

- 3.2 Mae'r hawliau datblygu a ganiateir a roddir gan y Gorchymyn hwn yn ofynnol ar frys gan awdurdodau lleol i ymateb i epidemig presennol y coronafeirws (COVID-19). Byddai gohirio'r Gorchymyn i gynnal ymgynghoriad, hyd yn oed gyda llai o amser ar gyfer ymatebion, yn torri ar draws gallu awdurdodau lleol i ymateb i'r argyfyngau presennol, ar draul ymdrechion i liniaru effaith COVID-19.

4. Asesiad o'r gystadleuaeth

- 4.1 Mae prawf hidl cystadleuaeth wedi'i gymhwyso at y diwygiadau arfaethedig. Mae canlyniadau'r prawf yn awgrymu nad yw'r cynigion yn debygol o gael unrhyw effaith andwyol sylweddol ar gystadleuaeth.

5. Adolygu ar ôl gweithredu

- 5.1 Mae cyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol fel rhan o gydgyssylltu'r ymateb i epidemig presennol COVID-19. Mae hyn yn hwyluso trafodaeth ynghylch unrhyw faterion neu bryderon ynghylch y trefniadau a gyflwynwyd gan yr is-ddeddfwriaeth newydd. Bydd Aelodau'r Cynulliad a'r cyhoedd hefyd yn darparu tystiolaeth o effeithiolrwydd y trefniadau newydd.
- 5.2 Bydd Llywodraeth Cymru hefyd yn ceisio cynnwys y mesurau a geir yn y Gorchymyn fel rhan o ymgynghoriad yn y dyfodol ar newidiadau ehangach i hawliau datblygu a ganiateir. Bydd hyn yn rhoi cyfle pellach i roi adborth.